Cymdeithas
Amaethyddol
**Frenhinol**
**Cymru**

**Royal**
**Welsh**
Agricultural
Society

# Llysgennad CAFC 2025




Noddwr / Patron: The Late Queen Elizabeth II
Prif Weithredwr / Chief Executive: Aled Rhys Jones BSc(Hons) MRICS FAAV NSch
Cadeirydd y Cyngor / Chairman of Council: Nicola Davies BA Hons, ARAgS

Company Registration No.: 892851 Wales Charity Registration No.: 251232 VAT No.: 134 6903 69

# Gwybodaeth Amgaeëdig

- **Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru – gwybodaeth gyffredinol**
- **Canllawiau**
- **Rheolau a Rheoliadau**
- **Ffurflen Gais**
- **Llysgennad – Amserlen Sioe 2023 – ar gael ar gais**

# Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf – Gwybodaeth Gyffredinol

Wedi'i sefydlu bron 120 o flynyddoedd yn ôl, ond gydag agwedd gadarn o gyfoes, mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn llenwi lle unigryw yn nhirwedd wledig a diwylliannol Cymru. Fel elusen gofrestredig, ein nod craidd yw hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy, garddwriaeth, coedwigaeth, cadwraeth a'r amgylchedd yng Nghymru. Rydym yn cyflawni'r amcanion hyn trwy gynnal tri digwyddiad mawr bob blwyddyn, ochr yn ochr â nifer o wobrau, bwrsarïau ac ysgoloriaethau.

Yn ogystal â'n digwyddiadau ein hunain, rydym yn croesawu nifer o ddigwyddiadau trydydd parti ar ein maes sioe 150 erw, gan greu incwm allweddol i fod yn sail i'n gwaith elusennol.

Wrth edrych ymlaen bydd angen i'r Gymdeithas, fel pob sefydliad, ddatblygu i aros yn berthnasol. Mae gennym nifer o brosiectau cyffrous yn yr arfaeth ac ymgyrch i groesawu newid a thyfu llwyddiant ein digwyddiadau.

Mae CAFC yn ddyledus i gefnogaeth ei haelodau sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgorau Sirol Ymgynghorol ledled Cymru a siroedd y gororau. Mae'r siroedd hyn yn cael cyfle ar sail rota i ddod yn Sir Nawdd CAFC am flwyddyn benodol; mae Llywydd a Llysgennad CAFC am y flwyddyn honno yn cael eu penodi o'r sir ac mae ef/hi yn gallu dylanwadu ar agweddau ar ddigwyddiadau CAFC. Mae'r Sir Nawdd yn cytuno hefyd i godi arian tuag at brosiect cyfalaf neu waith ar Faes y Sioe a bu'r trefniant hwn yn werthfawr y tu hwnt i ddatblygu'r safle.

Amcanion Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru fel elusen yw:

- Hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy, garddwriaeth, coedwigaeth, cadwraeth a'r amgylchedd ac yn arbennig Cymru.
- Annog a hyrwyddo gwyddor, ymchwil ac addysg amaethyddol, yn arbennig mewn perthynas â bwyd, ffermio a chefn gwlad;
- Hyrwyddo gwella da byw, lles anifeiliaid ac atal a dileu clefydau mewn anifeiliaid sy'n ddefnyddiol i ddyn;
- Cynnal arddangosiadau o ddulliau, technoleg a phrosesau amaethyddol cyfoes;
- Cynnal sioeau i arddangos da byw, dofednod, cynnyrch fferm a gardd a choedwigaeth, ac i arddangos dulliau amaethyddol, peiriannau a thechnoleg gyfoes a chynnal digwyddiadau o fath ategol;
- Hyrwyddo a hybu cadwraeth, gwarchodaeth a gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol a naturiol er lles ac addysg y cyhoedd; a
- Hyrwyddo celfyddydau, diwylliant a threftadaeth cefn gwlad.

## CANLLAWIAU PENODI

- ***A allech chi fod yr un i hyrwyddo amcanion y Gymdeithas a bod yn llefarydd a chodwr arian allweddol?***

- ***Sut fyddech chi'n cyflawni'r meini prawf hyn?***

- ***A ydych chi'n gefnogwr i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ac yn awyddus i chwarae rhan flaenllaw wrth hyrwyddo'i nodau a'i hamcanion, gan weithio ar sail wirfoddol?***

- ***Sut ydych chi wedi cefnogi'r Gymdeithas yn y gorffennol? Sut ydych yn rhagweld dyfodol y Gymdeithas? Pa rôl hoffech chi ei gweld yn ei chyflawni? Sut fyddech yn cefnogi hyn?***

- ***A ellwch chi gyflawni swydd uchel ei phroffil, cyfarfod a rhyngweithio gyda phobl o bob cefndir, siarad yn gyhoeddus a delio â'r cyfryngau o bosib; gan ymgymryd â chyfweliadau radio a theledu byw a chyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol? Cadw dyddiadur cyhoeddus o'ch gweithgareddau i'r Gymdeithas trwy gyfrwng presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol.***

- ***Mae cyfathrebu'n allweddol i'r swydd hon yn ei amrywiol ffurfiau ac felly hefyd y gallu i wrando – a oes gennych brofiad blaenorol o hyn?***

- ***A oes gennych y brwdfrydedd i weithio ochr yn ochr â thîm Gweinyddiaeth, Busnes a Marchnata a Chyfathrebu CAFC i helpu i hyrwyddo Amaethyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd?***

- ***Sut ydych yn rhagweld eich hun yn helpu'r tîm Busnes a Marchnata?***

- ***A fyddai gennych ddiddordeb mewn helpu i gynllunio, cyd-drefnu a bod yn un o'r prif ysgogwyr wrth drefnu digwyddiadau a gweithgareddau codi arian ar y cyd â phwyllgor eich sir nawdd eich hun?***

- ***A oes gennych syniadau ynghylch codi arian a chodi ymwybyddiaeth o'r elusen o fewn eich sir?***

Os ydych yn gallu ateb yn **GADARNHAOL** i'r cwestiynau hyn, yna efallai mai chi yw'r ymgeisydd delfrydol ar gyfer swydd bwysig a llawn bri Llysgennad CAFC.

Bwriad y nodiadau byr hyn yw rhoi cyfarwyddyd cyffredinol ynghylch:
- pa ymrwymiadau a ddisgwylir gan Lysgennad CAFC
- y gefnogaeth y gellwch ei disgwyl gan y Gymdeithas
- y rhinweddau personol yr ydym yn credu y byddant yn helpu unigolion i lenwi'r swydd unigryw hon yn llwyddiannus

## <u>YMRWYMIAD</u>

Dewisir Llysgennad CAFC am gyfnod o ddeuddeg mis yn y swydd, sy'n cyfateb i dymor eu sir nawdd. Serch hynny, mae'n cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd i gynnwys y flwyddyn fel Darpar Lysgennad. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwasanaethu fel Darpar Lysgennad o'r penodiad yng nghyfarfod Cyngor CAFC yn y mis Rhagfyr cyn y flwyddyn yn y swydd.

Felly rydym yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gefnogi'r Llysgennad presennol yn rhannol yn eu gwaith a byddwch yn gweld hefyd fod hwn yn gyfnod gwerthfawr, a ddylai eich paratoi ar gyfer y flwyddyn gyffrous sy'n eich aros.

Prif ddigwyddiadau'r Gymdeithas yw'r Ŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad a gynhelir ym mis Mai, Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf a'r Ffair Aeaf yn niwedd Tachwedd neu ddechrau Rhagfyr. Dylai Llysgennad CAFC fod yn bresennol ac yn weithgar gydol y digwyddiadau hyn. Mae noddwyr, arddangoswyr ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi presenoldeb y Llysgennad ac agwedd bwysig ar eu gwaith yw sicrhau bod pobl yn hapus, yn mwynhau'r digwyddiadau, a helpu i gyfleu diolchgarwch CAFC am eu cefnogaeth. Mae rhyngweithio gyda'r arddangoswyr a'u hyrwyddo ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol yn ein digwyddiadau wedi'i ddatblygu'n ddiweddar ac mae'n rhan o'r amserlen.

Byddir yn gwahodd Llysgennad CAFC i fod yn rhan o grŵp Marchnata a Chyfathrebu CAFC ac o Fforwm Cenhedlaeth y Dyfodol a all gyfarfod nifer o weithiau y flwyddyn, i gynorthwyo wrth hyrwyddo digwyddiadau'r Gymdeithas. Mae disgwyl hefyd i'r Llysgennad fynychu cyfarfod Cyngor CAFC a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol CAFC. Bydd rhith-gyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda deiliad y swydd bob hyn a hyn yn enwedig cyn digwyddiadau'r Gymdeithas.

**Dylid gwneud pob ymdrech i fynychu'r cyfarfodydd pwysig hyn.**

Mae prif ymrwymiad arall Llysgennad CAFC i'w sir nawdd. Yn draddodiadol, mae'r sir nawdd yn gweithio'n ddiflino er mwyn codi arian tuag at brosiect dewisedig ar brif faes y sioe yn Llanfair-ym-Muallt. Mae Llysgennad CAFC bellach yn aelod pwysig o'r tîm gweithgar hwn. Mae'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a drefnir gan y sir nawdd yn tueddu hefyd i symbylu'r ymdeimlad o ysbryd cymdogol a chydweithrediad o fewn ein hardaloedd gwledig – gwobr wych arall o fod yn Llysgennad CAFC.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd weithio gyda'r tîm gweinyddu, busnes a marchnata i ddatblygu rhaglen bwrpasol a gytunir gan y ddwy ochr ar gyfer digwyddiadau'r Gymdeithas yn arbennig.

## <u>CEFNOGAETH</u>

Cefnogir Llysgennad CAFC gan staff CAFC. Bydd cyfarfod cynefino'n cael ei gynnal hefyd gyda'r darpar lysgennad a deiliad y swydd ar ddechrau'r flwyddyn a bydd y staff yn cynnig cyngor a gwybodaeth mewn perthynas â CAFC a'i disgwyliadau.

***A ydych chi'n gallu neilltuo amser i gefnogi'r cyfarfodydd lawer, y gweithgareddau codi arian, a digwyddiadau'r Gymdeithas yn ystod eich blwyddyn fel darpar lysgennad ac yn y swydd?***

## <u>PROSIECT</u>

Bydd y Llysgennad yn cael ei annog (a'i helpu, os bydd angen) i ddewis thema prosiect, yn deillio o un o amcanion yr elusen, i'w hyrwyddo gydol eu blwyddyn.
Er enghraifft, efallai y dymuna deiliad y swydd ddewis thema cadwraeth, ac os felly fe allent gysylltu â chyrff a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r maes hwn. Gallai hyn arwain at weithgaredd/weithgareddau arbennig yn Sioe'r Haf, yn yr Ŵyl neu yn / ac yn y Ffair Aeaf i arddangos rôl/cyfranogiad/cysylltiadau'r Gymdeithas o fewn y maes hwn. Os yw deiliad y swydd yn dewis cynnyrch, fe allent gynnal brecwast/barbeciw neu debyg yn un o'r prif ddigwyddiadau, ar y cyd â sefydliadau partner. Gallai thema'n gysylltiedig â diwylliant neu dreftadaeth, ei chynnig ei hun i gynnal rhyw fath o arddangosfa.

Byddai'r Gymdeithas yn hoffi annog deiliad y swydd i fod yn greadigol eu dychymyg, i wneud y swydd yn fwy amrywiol a diddorol yn ogystal â chaniatáu iddynt ddod â'u syniadau, sgiliau, profiadau a'u personoliaeth eu hunain i'r swydd.

Gallai eu rhaglen yn y digwyddiadau gael ei llunio o amgylch thema a gweithgareddau deiliad y swydd - gan gysylltu â busnesau a sefydliadau perthnasol, ymweld ag asiantaethau eraill i amlygu a hyrwyddo'u gwaith i gynulleidfa ehangach. Gallai deiliad y swydd chwilio am gefnogaeth bellach i'w thema/gweithgareddau hyrwyddo hefyd.

Yn 2022 y prosiect oedd Aelodaeth ac yn 2023 prosiect y Llysgennad oedd Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC.

***A oes gennych brosiect mewn golwg? Sut ydych yn rhagweld y caiff y prosiect hwn ei gyflawni? Pam ydych wedi dewis y pwnc arbennig yma?***

## <u>YR YMGEISYDD DELFRYDOL</u>

Ni fwriedir i'r nodiadau cyfarwyddyd hyn fod yn argymhellol mewn unrhyw fodd. Rydym yn chwilio am unigolyn gyda brwdfrydedd a hyder ar gyfer y swydd anrhydeddus o Lysgennad CAFC ac, yn bwysig, i hyrwyddo nodau ac amcanion y Gymdeithas. Bydd angen i chi fod yn garismatig, bod â sgiliau pobl rhagorol naturiol a bod yn wrandäwr da, sy'n fodlon gweithio'n galed a rhoi 100% o ymroddiad i'r swydd. Rydym yn chwilio felly am rywun gydag egni a mynd sydd â'r gallu i ymgymryd â'r swydd wirfoddol hon.

***A oes gennych y nodwedion hyn? A ellwch chi roi enghreifftiau inni o brofiadau yn y gorffenol sy'n dangos y nodweddion hyn?***

Rydym yn ymwybodol hefyd fod y swydd hon wedi datblygu'n sylweddol dros y 30 mlynedd ddiwethaf a 'dyw hyn ond yn iawn os yw Llysgennad CAFC i aros yn berthnasol i'r Gymdeithas ac yn alluog i wneud cyfraniad gwerthfawr. Mae'n hollbwysig felly eich bod yn gallu dod â'ch syniadau eich hun i'r swydd a meddwl am ffyrdd newydd o hyrwyddo gwaith eich sir nawdd a'r Gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Os ydych yn meddwl eich bod yn barod ar gyfer her o'r fath ac yn meddu ar y rhinweddau yr ydym yn chwilio amdanynt yn Llysgennad CAFC, paham na rowch chi gynnig arni? Gallai arwain at un o brofiadau mwyaf cyffrous a gwerth chweil eich bywyd!

# RHEOLAU A RHEOLIADAU

Mae'r rheolau a'r rheoliadau canlynol i'w nodi gan y Pwyllgor Ymgynghorol Sirol perthnasol yn ogystal â'r Ymgeisydd. Mae yna nodiadau ar wahân ar gyfer cynnal y cyfweliad i'r Pwyllgor Ymgynghorol Sirol.

1. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys dau o bobl annibynnol a enwebir gan CAFC, ac un unigolyn sydd i'w enwebu gan y Pwyllgor Ymgynghorol Sirol.

2. Nid yw deiliaid swyddi Llysgenhades/Llysgennad blaenorol yn gymwys i gystadlu.

3. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 21 mlwydd oed a hŷn ar y 1af Rhagfyr 2023 ac yn 35 mlwydd oed ac iau ar y 1af Rhagfyr 2024 a rhaid i'w cyfeiriad etholiadol fod o fewn y Sir Nawdd ar ddyddiad y cais.

4. Nid yw'r Iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, ond mae croeso i geisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu gallu i gyflawni'r swydd yn Saesneg ac/neu yn Gymraeg.

5. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn £50.00 tuag at gostau gan y Pwyllgor Ymgynghorol Sirol ar ddechrau'i flwyddyn/blwyddyn ef/hi fel Darpar Lysgennad. Bydd £350 yn cael ei dalu tuag at gostau ar ddechrau ei flwyddyn/blwyddyn yn y swydd tuag at gostau, a gall costau ychwanegol gael eu talu gyda sêl bendith o flaen llaw gan CAFC, uchafswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer hyn fydd £500.

6. Rhaid anfon ceisiadau at Bennaeth Gweinyddiaeth CAFC a bydd trefniadau'r cyfweliad yn cael eu trefnu ganddi hi ond byddir yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am benderfyniad y panel gan y Pwyllgor Ymgynghorol Sirol.

7. Ymrwymiadau –
Yn ystod eu blwyddyn fel Darpar Lysgennad bydd disgwyl iddynt fynychu'r canlynol –

- Cyfarfod y Cyngor - Rhagfyr 2023
- Gŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad 2024 - Un Diwrnod o'r Ŵyl Ddeuddydd
- Sioe Frenhinol Cymru 2024 - Un neu Ddau ddiwrnod o'r Sioe Bedwar Diwrnod
- Ffair Aeaf Frenhinol Cymru 2024 - Un diwrnod o'r Ffair Ddeuddydd

Yn ystod y flwyddyn yn y swydd fel Llysgennad bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fynychu'r canlynol –

- Cyfarfod Cyngor CAFC - Rhagfyr 2024
- Gŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad 2025 - Dau ddiwrnod
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CAFC - Mehefin
- Sioe Frenhinol Cymru 2025 - Pedwar diwrnod a dydd Sul
- Ffair Aeaf Frenhinol Cymru 2025 - Dau ddiwrnod a dydd Sul
- Cyfarfodydd grŵp Marchnata CAFC - Tair gwaith y flwyddyn
- Fforwm Cenedlaethau'r Dyfodol - Dau i bedwar cyfarfod

Hefyd, i fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol eu Sir Nawdd tra byddant yn y swydd.

**Yn y swydd fel Darpar Lysgennad ac yn y swydd bydd llawer o ymrwymiadau yn y sir.**

8. Bydd Darpar Lysgennad CAFC yn derbyn bathodyn llabed y dylid ei wisgo ym mhob derbyniad perthnasol. Cyn dechrau blwyddyn Llysgennad CAFC, bydd y bathodyn llabed yn cael ei drosglwyddo i Ddarpar Lysgennad newydd CAFC a bydd bathodyn llabed newydd, wedi'i ddyddio a'i arysgrifio, yn cael ei gyflwyno i'r Llysgennad.

9. <u>Preifatrwydd</u>
Fel rhan o'r broses recriwtio, mae'r sefydliad yn casglu a phrosesu data personol yn ymwneud â'r ymgeiswyr am y swydd anrhydeddus. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu i ddibenion y broses recriwtio gyda Phwyllgor Sir Nawdd perthnasol CAFC a'r panel dethol ynghyd â Phennaeth Gweinyddiaeth CAFC.

Ni fydd y sefydliad yn rhannu'ch data gyda thrydydd parti oni bai bod eich cais yn llwyddiannus.  Oherwydd natur y swydd bydd eich enw'n cael ei rannu o fewn y Gymdeithas a'r cyfryngau.

Nid ydych dan unrhyw rwymedigaeth statudol neu gytundebol i ddarparu data i'r sefydliad yn ystod y broses recriwtio.  Fodd bynnag, os nad ydych yn darparu'r wybodaeth yma, efallai na fydd y sefydliad yn gallu prosesu'ch cais yn iawn neu o gwbl.

Mae'r sefydliad yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif a bydd eich gwybodaeth yn cael ei dinistrio ar ôl y broses recriwtio os buoch yn aflwyddiannus.

10. Nodwch os gwelwch yn dda fod y gwahoddiad hwn yn un am gymorth gwirfoddol yn unig ac ni ddylid disgwyl dim iawndal yn gyfnewid am wasanaeth sy'n cael ei ddarparu fel gwirfoddolwr.  Nid yw'r trefniant hwn yn gyfwerth â pherthynas gyflogi naill ai'n awr neu ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

**Trwy orchymyn Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

CYMDEITHAS AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU

**PENODI LLYSGENNAD CAFC 2025**
**Caernarfon – Sir Nawdd**

# FFURFLEN GAIS

**CEISIADAU'N CAU: Dydd Mercher 1af Tachwedd, 2023**

**Cynhelir cyfweliadau ar ddydd Mercher 15fed Tachwedd, 2023**

Enw (Mr / Mrs / Miss / Ms) ______________________________

Cyfeiriad Etholiadol ______________________________

______________________________

Côd Post ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

Rhif Ffôn ______________________________

Cyfeiriad E-bost ______________________________

Dyddiad Geni ______________________________

Gwaith neu alwedigaeth ar hyn o bryd ______________________________

______________________________

Manylion byr Addysg/ Diddordebau/ Prif Hobïau

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

Nodwch ym mha iaith y byddai orau gennych gael eich cyfweld

______________________________

Eglurwch paham eich bod wedi gwneud cais am y swydd a phaham eich bod yn credu y gellwch gyflawni'r swydd hon yn ogystal â nodi beth all eich prosiect dewisol fod (noder dim mwy nag un ddalen A4)

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen y canllawiau penodi a'r rheolau a'r rheoliadau mewn perthynas â'r cais ac wedi deall polisïau eraill CAFC ar y wefan.

PRINTIWCH EICH ENW

Arwyddwyd ______________________________ Ymgeisydd ____________________

Dylai'r ffurflen gais gael ei chwblhau a'i dychwelyd at Bennaeth Gweinyddiaeth, trwy e-bost caron@rwas.co.uk erbyn diwedd busnes ar ddydd Mercher 1af Tachwedd, 2023. Rhowch y geiriau 'preifat a chyfrinachol' ar eich gohebiaeth os gwelwch yn dda.